


**Trefn ar gyfer
Cymun Bendigaid heb fod yn Rhan o'r
Ewcharist**

**An Order for
Holy Communion Outside the Eucharist**

*Yr Eglwys yng Nghymru
The Church in Wales*



Trefn ar gyfer Cymun Bendigaid heb fod yn Rhan o'r Ewcharist

- Bwriedir y Drefn hon i'w defnyddio mewn amgylchiadau eithriadol yn unig. Rhaid, felly, ar bob achlysur, roi gwybod i'r esgob a derbyn ei ganiatâd cyn ei defnyddio.
- Bydd y gweinidog naill ai yn ddiakon neu'n berson lleyg a drwyddedwyd yn briodol i'r pwrpas hwn gan yr esgob.
- Pryd bynnag y bo'n bosibl, dylai'r bara a'r gwin cysegredig gael eu cludo, mewn llestri a wnaed at hynny, o weinyddiad yr Ewcharist i'r eglwys lle y maent i'w gweinyddu.
- Dylai'r gweinidog arwain y gwasanaeth o'r ddesg neu o ddarllenfa. Dylai fynd at y Bwrdd Sanctaidd yn union cyn gweinyddu'r sacrament ac ymadael ag ef yn union wedi hynny.

An Order for Holy Communion Outside the Eucharist

- This Order is intended for use only in exceptional circumstances. It should therefore be used only with the knowledge and permission on each occasion of the bishop.
- The minister is either a deacon or a lay person who has been duly licensed for this purpose by the bishop.
- Whenever possible, the consecrated bread and wine should be brought directly, in vessels manufactured for this purpose, from the celebration of the Holy Eucharist to the church where they are to be administered.
- The minister should conduct the service from either the reading desk or a lectern, approaching the Holy Table immediately before the administration of the sacrament and leaving it immediately afterwards.

Y Rhagarweiniad

Gosodir y bara a'r gwin cysegredig ar y Bwrdd Sanctaidd cyn dechrau'r gwasanaeth.

Gellir canu emyn.

Dywed y gweinidog:

Yn enw'r Tad, a'r Mab, a'r Ysbryd Glân. **Amen.**

Gras a thangnefedd a fo gyda chwi
a'th gadw di yng nghariad Crist.

neu

Dyma'r dydd a wnaeth yr Arglwydd:
Gorfoleddwn a llawenhawn ynddo.

neu yn nhymor y Pasg:

Alelwia! Atgyfododd Crist.
Atgyfododd yn wir. Alelwia!

Y mae'r gweinidog yn cyflwyno'r gwasanaeth:

Y mae Crist yn croesawu pawb a ddaw i'w wŷydd,
boed ifanc neu hen, cyfoethog neu dlawd:
pa un bynnag a ydych yn llawen neu yn drist, yn gryf neu
yn wan, croeso i chwi.

Y mae Crist yn galw ei bobl i gael eu bedyddio,
ac yn eu maethu â bara'r bywyd ac â chwpan
iachawdwriaeth.

Y mae'n ein gwahodd ni i ddod at ei fwrdd,
fel y gall ein hanfon allan i fynegi ei bresenoldeb ef
yn y byd.

The Introduction

The consecrated bread and wine are placed on the Holy Table before the beginning of the service.

A hymn may be sung.

The minister says:

In the name of the Father, and of the Son,
and of the Holy Spirit. **Amen.**

Grace and peace be with you
and keep you in the love of Christ.

Or

This is the day the Lord has made:
Let us rejoice and be glad.

Or in Eastertide:

Alleluia! Christ is risen.
He is risen indeed. Alleluia!

The minister introduces the service:

Christ welcomes all who come into his presence,
whether you are young or old, rich or poor:
whether you are joyful or sad, weak or strong,
you are welcome.

Christ calls his people to be baptized and nourishes them
with, the bread of life and the cup of salvation.
He invites us to come to his table to be his guests, so that
he may send us out to be his presence in the world.

neu

Rhodiodd y Crist atgyfodedig gyda'i ddisgyblion,
agorodd iddynt yr ysgrythurau,
a datguddiodd ei hun iddynt ar doriad y bara.
Yr ydym yn eich croesawu i'r gwasanaeth hwn
i glywed sanctaidd air Duw
ac i dderbyn sacrament corff a gwaed Crist.
Bydded i'r Arglwydd a'n galwodd ein huno mewn cariad a
ffydd, fel y rhodiom yn ddisgyblion iddo a chanlyn i ba le
bynnag y geilw ef ni.

neu

Dewch a chlywch air sanctaidd Duw.
Dewch a derbyniwch y rhoddion sanctaidd hyn.
Dewch a dilynwch ffordd y groes.
Dewch a derbyniwch ymborth at y daith.
Dewch i gyfarfod â'r Arglwydd a'ch galwodd ac a'ch
gwardodd.
Dewch, addolwn.

neu

Bendigedig wyt ti, Arglwydd, Frenin y Bydysawd:
yr wyt yn caru dy bobl, a rhoddaist inni air y bywyd
tragwyddol.

Bendigedig fyddo Duw am byth.

Bendigedig wyt ti, Arglwydd, fugail y praidd:
yn y sacrament hwn yr wyt yn porthi dy bobl.

Bendigedig fyddo Duw am byth.

Bendigedig wyt ti, Arglwydd:
yr wyt yn ein llenwi â'th Ysbryd ac yn ein gwahodd i
wledda yn dy Deyrnas.

Bendigedig fyddo Duw, Dad, Mab ac Ysbryd Glân.

Or

The risen Christ walked with his disciples, opened to them the scriptures and made himself known to them in the breaking of bread.

We welcome you to this service to hear God's holy word and receive the sacrament of Christ's body and blood. May the Lord, who has called us, unite us in love and faith, that we may walk as his disciples and follow wherever he calls.

Or

Come and hear God's holy word. Come and receive these holy gifts.

Come and follow in the way of the cross. Come and receive food for the journey.

Come and meet the Lord who has called you and saved you.

Come, let us worship.

Or

Blessed are you, Lord, King of the Universe:
you love your people and have given us the word of eternal life.

Blessed be God for ever.

Blessed are you, Lord, the shepherd of the sheep:
you feed your people in the holy sacrament.

Blessed be God for ever.

Blessed are you, Lord:

you fill us with your Spirit and invite us to feast in your Kingdom.

Blessed be God, Father, Son and Holy Spirit.

Mae'r gwasanaeth yn dechrau gydag Adran 1, (gyda'r weddi Dad y gogoniant, sanctaidd a thragwyddol / Dad nefol, y mae pob calon yn agored i ti)

Adran 2 ac Adran 3 yn Y Cymun Bendigaid 2004.

Yn lle'r gollyngdod, defnyddia'r gweinidog y weddi a ganlyn am faddeuant Duw:

Yr hollalluog Dduw, sy'n maddau i bawb sy'n wir edifeiriol, a drugarhao wrthym a'n rhyddhau o bechod, ein cadarnhau mewn daioni a'n cadw yn y bywyd tragwyd dol; trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

Dylid bob amser ddefnyddio'r colect a'r darlleniadau penodedig.

Ar ôl Adran 3, gall y gweinidog ddweud:

Tangnefedd yr Arglwydd a fo gyda chwi bob amser.
A hefyd gyda thi.

Gellir cyfnewid arwydd tangnefedd.

Gellir canu emyn, a gwneud casgliad.

The service continues with Section 1, (beginning with the prayer Father of glory, holy and eternal / Heavenly Father, all hearts are open to you)

Section 2 and Section 3 of the Holy Eucharist 2004.

The minister uses the following prayer for divine forgiveness in place of the absolution:

May almighty God, who forgives all who truly repent,
have mercy on us and set us free from sin,
strengthen us in goodness and keep us in eternal life;
through Jesus Christ our Lord. **Amen.**

The appointed collect and readings should always be used.

After Section 3, the minister may say:

The peace of the Lord be with you always.
And also with you.

A sign of peace may be exchanged.

A hymn may be sung, and a collection taken.

Y Cymun

Dywedir Gweddi'r Arglwydd:

Gweddiwn yn hyderus
ar y Tad:
**Ein Tad yn y nefoedd,
sancteiddier dy enw,
deled dy deyrnas,
gwneled dy ewyllys,
ar y ddaear fel yn y nef.
Dyro inni heddiw ein bara
beunyddiol;
a maddau inni ein troseddau,
fel yr ŷm ni wedi maddau
i'r rhai a droseddodd yn
ein herbyn;
a phaid â'n dwyn i brawf,
ond gwared ni rhag yr
un drwg.
Oherwydd eiddot ti yw'r
deyrnas a'r gallu
a'r gogoniant am byth.
Amen.**

neu Fel y dysgodd ein Hiachawdwr ni,
gweddiwn yn hyderus:
**Ein Tad,
yr hwn wyt yn y nefoedd,
sancteiddier dy enw,
deled dy deyrnas,
gwneled dy ewyllys;
megis yn y nef, felly ar y ddaear
hefyd.
Dyro i ni heddiw ein bara
beunyddiol
a maddau i ni ein dyledion,
fel y maddeuwn ninnau i'n
dyledwyr.
Ac nac arwain ni i brofedigaeth
eithr gwared ni rhag drwg.
Canys eiddot ti yw'r deyrnas,
a'r gallu, a'r gogoniant
yn oes oesoedd.
Amen.**

Gellir defnyddio'r anthem hon yma neu adeg y Cymun.

Naill ai

**lesu, Oen Duw: trugarha wrthym.
lesu, sy'n dwyn ein pechodau: trugarha wrthym.
lesu, iachawdwr y byd: dyro inni dy dangnefedd.**

neu

**Oen Duw, sy'n dwyn ymaith bechodau'r byd:
trugarha wrthym.
Oen Duw, sy'n dwyn ymaith bechodau'r byd:
trugarha wrthym.
Oen Duw, sy'n dwyn ymaith bechodau'r byd:
dyro inni dangnefedd.**

The Communion

The Lord's Prayer is said:

Let us pray with
confidence to the Father:
**Our Father in heaven,
hallowed be your name,
your kingdom come,
your will be done,
on earth as in heaven.
Give us today our
daily bread.
Forgive us our sins
as we forgive those
who sin against us.
Save us from the time
of trial
and deliver us from evil.
For the kingdom, the power
and the glory are yours,
now and for ever.
Amen.**

As our Saviour taught us,
we boldly pray:
**Our Father who art in heaven,
hallowed be thy name,
thy kingdom come,
thy will be done,
on earth as it is in heaven.
Give us this day our daily bread.
And forgive us our trespasses
as we forgive those
who trespass against us.
And lead us not into temptation,
but deliver us from evil.
For thine is the kingdom,
the power and the glory,
for ever and ever.
Amen.**

This anthem may be used here or during the communion.

Either

**Jesus, Lamb of God: have mercy on us.
Jesus, bearer of our sins: have mercy on us.
Jesus, redeemer of the world: give us your peace.**

Or

**Lamb of God, you take away the sins of the world:
have mercy on us.
Lamb of God, you take away the sins of the world:
have mercy on us.
Lamb of God, you take away the sins of the world:
grant us peace.**

Fe â'r gweinidog at y Bwrdd Sanctaidd.

Defnyddir un o'r gwahoddiadau a ganlyn:

Rhoddion sanctaidd Duw ar gyfer pobl sanctaidd Duw.
Y mae Iesu Grist yn sanctaidd,
y mae Iesu Grist yn Arglwydd,
er gogoniant Duw Dad.

neu

Iesu yw Oen Duw
sy'n dwyn ymaith bechodau'r byd.
Gwyn eu byd y rhai a elwir i'w swper.
Arglwydd, nid wyf yn deilwng i'th dderbyn,
ond dywed y gair a chaf fy iacháu.

neu

Dewch, derbyniwn gorff a gwaed ein Harglwydd Iesu Grist,
a roddwyd drosom, ac ymborthwn arno yn ein calonnau
trwy ffydd gan roi diolch.

neu yn nhymor y Pasg:

Alelwia. Crist, ein Pasg, a aberthwyd drosom ni.
Felly, gadewch i ni gadw'r ŵyl. Alelwia

Gweinyddir y sacrament gyda'r geiriau hyn:

Corff Crist a'th gadwo yn y bywyd tragwyddol. **Amen.**

neu Corff Crist, bara'r bywyd. **Amen.**

neu Corff Crist. **Amen.**

Gwaed Crist a'th gadwo yn y bywyd tragwyddol. **Amen.**

neu Gwaed Crist, y wir winwydden. **Amen.**

neu Gwaed Crist. **Amen.**

Cedwir distawrwydd.

Gellir canu emyn.

The minister goes to the Holy Table.

One of the following invitations is used:

God's holy gifts for God's holy people.

**Jesus Christ is holy,
Jesus Christ is Lord,
to the glory of God the Father.**

or

Jesus is the Lamb of God
who takes away the sins of the world.
Happy are those who are called to his supper.
**Lord, I am not worthy to receive you,
but only say the word and I shall be healed.**

or

Come, let us receive the body and blood of
our Lord Jesus Christ, given for us,
and feed on him in our hearts by faith
with thanksgiving.

or in Eastertide:

Alleluia. Christ our passover is sacrificed for us.
Therefore let us keep the feast. Alleluia.

The sacrament is administered with these words:

or
or

The body of Christ keep you in eternal life. **Amen.**
The body of Christ, the bread of life. **Amen.**
The body of Christ. **Amen.**

or
or

The blood of Christ keep you in eternal life. **Amen.**
The blood of Christ, the true vine. **Amen.**
The blood of Christ. **Amen.**

Silence is kept.

A hymn may be sung.

Bwytâ'r gweinidog gyda pharch unrhyw fara a gwin cysegredig nas neilltuir at bwrpas Cymun.

Y mae'r gweinidog yn ymadael â'r Bwrdd Sanctaidd.

Yr Anfon Allan

Diolchwch i'r Arglwydd, oherwydd graslon yw:
ei gariad sy'n dragwydd.

Defnyddir un o'r gweddïau canlynol:

**Diolchwn i ti, ein Tad,
am ein porthi â chorff a gwaed dy Fab
yn y sacrament sanctaidd hwn,
y cawn trwyddo sicrwydd o'r gobaith am fywyd tragwyddol.
Offrymwn ein hunain yn aberth bywiol i ti.
Cadw ni yng nghymdeithas ei Gorff, yr Eglwys,
ac anfon ni allan yn nerth dy Ysbryd
i fyw ac i weithio er mawl a gogoniant i ti. Amen.**

neu

**O Dduw haelionus,
porthaist ni wrth dy fwrdd nefol.
Ennyn ynom fflam dy Ysbryd,
fel pan ddaw'r Arglwydd drachefn
y cawn ddisgleirio fel goleuadau o'i flaen ef,
sy'n byw ac yn teyrnasu,
mewn gogoniant am byth. Amen.**

neu

**Dduw tragwyddol,
cysur y gorthrymedig ac iachâwr y drylliedig,
porthaist ni wrth fwrdd bywyd a gobaith.
Dysg inni lwybrau addfwynder a thangnefedd,
er mwyn i'r holl fyd gydnabod
teyrnas dy Fab, Iesu Grist, ein Harglwydd. Amen.**

Any consecrated bread and wine which is not to be reserved for purposes of communion is reverently consumed by the minister.

The minister leaves the Holy Table.

The Sending Out

Give thanks to the Lord for he is gracious:
his love is everlasting.

One of the following prayers is used:

**We thank you, Father,
for feeding us with the body and blood of your Son
in this holy sacrament,
through which we are assured of the hope of eternal life.
We offer ourselves to you as a living sacrifice.
Keep us in the fellowship of his body, the Church,
and send us out in the power of your Spirit
to live and work to your praise and glory. Amen.**

or

**Generous God,
you have fed us at your heavenly table.
Kindle us with the fire of your Spirit
that when the Lord comes again
we may shine as lights before him,
who is alive and reigns
in glory for ever. Amen.**

or

**Eternal God,
comfort of the afflicted and healer of the broken,
you have fed us at the table of life and hope:
teach us the ways of gentleness and peace,
that all the world may acknowledge
the kingdom of your Son,
Jesus Christ our Lord. Amen.**

neu

**Dduw'r gwirionedd,
yr ydym wedi gweld â'n llygaid
a chyffwrdd â'n dwylo fara'r bywyd.
Cryfha ein ffydd
fel y tyfwn mewn cariad atat ti,
ac at ein gilydd,
trwy Iesu Grist, ein Harglwydd atgyfodedig.
Amen.**


Yr Arglwydd a fo gyda chwi.
A hefyd gyda thi.

Ewch mewn tangnefedd i garu a gwasanaethu'r Arglwydd.
Yn enw Crist. Amen.

neu yn nhyrnor y Pasg:

Ewch mewn tangnefedd i garu a gwasanaethu'r Arglwydd.
Alelwia! Alelwia!
Yn enw Crist. Alelwia! Alelwia!

*Hawlfraint: Gwasg yr Eglwys yng Nghymru 2006
Argraffwyd gan Gwasg yr Eglwys yng Nghymru.*



or

God of truth,
we have seen with our eyes
and touched with our hands the bread of life.
Strengthen our faith
that we may grow in love for you
and for each other,
through Jesus Christ, our risen Lord.
Amen.

The Lord be with you.
And also with you.

Go in peace to love and serve the Lord.
In the name of Christ. Amen.

or in Eastertide:

Go in peace to love and serve the Lord.
Alleluia! Alleluia!
In the name of Christ.
Alleluia! Alleluia!

